AMGUEDDFA DROS NÔS
DEFFRO GYDA'R DEINOS!

MUSEUM SLEEPOVER
DINO NIGHTS!

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

## Bydd y cwestiynau a'r atebion hyn yn rhoi gwybodaeth am y digwyddiad ac yn eich paratoi ar gyfer noson hudolus yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

### Oes canllaw oed ar gyfer y digwyddiad hwn?

Mae'r digwyddiad hwn yn addas i blant 6–12 oed.  Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn, bob amser.

Mae'r digwyddiad a'r gweithgareddau wedi'u cynllunio ar gyfer plant 6 i 12 oed, ac felly gofynnwn i gwsmeriaid gadw at y canllaw oed. Ni fydd plant sy'n iau neu'n hŷn na'r canllaw oed yn cael mynediad.

### Beth fydd yn digwydd ar y noson?

Bydd digwyddiad arferol Amgueddfa Dros Nos yn edrych fel hyn:

| | |
|---|---|
| 5.30pm | - Drysau'n agor a chofrestru |
| 6.15pm | - Cau'r drysau, dim mynediad wedi hyn |
| 6.15pm | - Rhannu'r gwesteion yn grwpiau, a'r arweinwyr tîm yn briffio |
| 6.30pm–9.15pm | - Gweithgareddau, Blwch Danteithion a Siocled Poeth |
| 9.15pm | - Mynd draw i Ddarlithfa Reardon Smith |
| 9.30pm | - Ffilm yn dechrau |
| 11.20pm | - Diwedd y ffilm, nôl i'r Brif Neuadd i baratoi gwelyau |
| 12.00am | - Diffodd y golau |
| 7.00am | - Amser codi |
| 7.45am | - Brecwast |
| 9.00am | - Diwedd y digwyddiad. |

Mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i addasu'r amserlen a'i chynnwys os oes angen gwneud hynny er mwyn sicrhau digwyddiad diogel a hwyliog.

### Beth fyddaf i ei angen?

Rhaid i bob plentyn a rhiant ddod â sach gysgu, gobennydd, past dannedd a brwsh dannedd.

Byddwn yn darparu matiau cysgu tenau, ond mae croeso i chi ddod ag un eich hun. Oherwydd cyfyngiadau lle ni fyddwn yn caniatáu matiau na matresi gwynt. Os ydych chi angen dod â'ch mat cysgu eich hun am resymau meddygol, gadewch i ni wybod wrth archebu.

Rydym yn argymell eich bod yn gwisgo esgidiau addas a dillad i gysgu ynddynt. Bydd unrhyw fagiau llaw yn cael eu storio mewn ystafell gyfagos. Nid yw'r Amgueddfa'n ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb dros eitemau personol. Rhaid i ddillad cysgu fod yn addas i'w gwisgo tu allan, rhag ofn y bydd angen gwagio'r adeilad (er bod hyn yn annhebygol).

Rhaid gwisgo esgidiau addas bob amser yn yr Amgueddfa, heblaw pan fyddwch yn cysgu.

Bydd rhywfaint o oleuadau diogelwch ymlaen dros nos. Rydym yn argymell masgiau llygad i'ch helpu i gysgu.

Peidiwch â dod ag eitemau sydd â gwerth ariannol neu sentimental. Nid yw'r Amgueddfa'n ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb dros eitemau ymwelwyr gaiff eu difrodi neu eu colli.

Ni fyddwn yn caniatáu i fynychwyr roi plygiau trydan yn socedi'r Amgueddfa yn ystod y digwyddiad, am resymau iechyd a diogelwch.

## Oes angen i ni ddod â bwyd?

Rydym yn argymell i chi fwyta pryd o fwyd cyn cyrraedd.

Byddwn yn darparu blwch danteithion a siocled poeth i bawb rhwng 7pm ac 8.30pm (bydd ymwelwyr yn cael eu rhannu'n dimau ar gyfer gweithgareddau, a bydd timau'n derbyn eu blychau bwyd ar wahanol adegau).

Mae croeso i chi ddod â bwyd ychwanegol i'w fwyta'n hwyrach yn y nos. Peidiwch â dod â chyfarpar coginio.

Rydym yn argymell i chi ddod â dŵr ar gyfer eich grŵp

**Mae ein blychau danteithion yn cynnwys:**
- Salad neu frechdan
- Creision
- Ffrwythau wedi sychu
- Bisgedi Oreo
- Siocled poeth - a dewis o felysion i roi ar ei ben

**Yn y bore, bydd y brecwast yn cynnwys (ESIAMPL O'R FWYDLEN) :**
- Dewis o greision ŷd
- Croissants ac ati
- Brechdanau selsig
- Te a choffi ffres

Os oes gennych unrhyw ofynion dietegol, rhowch wybod i ni ymlaen llaw drwy e-bostio: digwyddiadau@amgueddfacymru.ac.uk

Nid yw'r digwyddiad yn amgylchedd di-gnau. Os oes gan unrhyw aelod o'ch grŵp alergedd yr ydych yn poeni yn ei gylch, cysylltwch â ni dros e-bost i gadarnhau hyn.

Os na fydd un o'ch grŵp yn gallu bwyta'r eitemau yn y blwch danteithion neu'r brecwast, gallwch ddod â bwyd eich hunain, ond sylwer na allwn ddarparu oergell.

Byddwn yn darparu cyllyll a ffyrc a phlatiau. Peidiwch â dod ag unrhyw gyllyll gyda chi.

## Sawl oedolyn sydd ei angen ar gyfer pob grŵp?

Dyma'r nifer o oedolion fydd eu hangen ar gyfer gwahanol niferoedd:

| | |
|---|---|
| 2 plentyn | 1 oedolyn |
| 2-4 plentyn | 2 oedolyn |
| 5-12 plentyn | 3 oedolyn |
| 13-20 plentyn | 4 oedolyn |
| 21-28 plentyn | 5 oedolyn |
| 29-36 plentyn | 6 oedolyn |

Bydd oedolion yn cysgu yn yr un ardal â'r plant yn eu grŵp. Rhaid i oedolion fod o leiaf 18 oed a dangos prawf o hyn wrth gofrestru.

## Faint o'r gloch fydd angen i mi gyrraedd?

Defnyddiwch brif fynedfa'r Amgueddfa ar Heol Gerddi'r Orsedd. Bydd y drysau'n agor am 5.30pm ac yn cau am 6.15pm. Ni fydd mynediad ar ôl 6.15pm.

Ewch i https://amgueddfa.cymru/caerdydd/ymweld/lleoliad/ am fwy o fanylion ar sut i'n cyrraedd.

Mae maes parcio yng nghefn yr Amgueddfa, oddi ar Rodfa'r Amgueddfa. £5 fydd cost parcio drwy gydol y digwyddiad a gallwch ei dalu cyn gadael yn y bore. Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael, felly cyntaf i'r felin.

## Beth os ydw i'n rhedeg yn hwyr?

Os ydych yn credu y byddwch yn hwyr e-bostiwch ni neu ffonio:

e-bost: digwyddiadau@amgueddfacymru.ac.uk
Ffôn: 02920 573441

Allwn ni ddim cynnig ad-daliad na gostyngiad os ydych yn hwyr.

## Yw'r digwyddiad hwn yn addas ar gyfer plant sydd ag anghenion mynediad?

Mae'r holl ardaloedd a ddefnyddir yn y digwyddiad hwn yn hygyrch, ond oherwydd natur hanesyddol yr adeilad efallai y bydd angen defnyddio llwybrau eraill i gefnogi anghenion arbennig. Rydym yn eich annog i gysylltu â ni cyn archebu, er mwyn cadarnhau y gallwn gwrdd â'ch anghenion.

## Lle fyddaf i'n cysgu, a beth yw'r trefniadau cysgu ar gyfer bechgyn a merched?

Bydd yr holl westeion yn cysgu ym Mhrif Neuadd yr Amgueddfa.

Os oes angen cymorth arbennig arnoch yn ymwneud â lle fyddwch yn cysgu, rhowch wybod i ni wrth archebu. Bydd staff y digwyddiad a staff diogelwch wrth law drwy'r nos i sicrhau fod pawb yn ddiogel a chyffyrddus. Mae camerâu cylch cyfyng yn weithredol drwy'r Amgueddfa.

## All oedolion ddod ag alcohol?

Mae alcohol wedi'i wahardd yn llwyr yn y digwyddiad hwn. Os ydym yn credu fod unrhyw un yn yfed alcohol yn ystod y digwyddiad byddwn yn gofyn iddynt adael y digwyddiad ar unwaith. Mae gan ein staff hawl i chwilio bagiau a phrofi hylifau ar unrhyw bwynt yn ystod y digwyddiad.

Mae ysmygu ar y safle hefyd wedi'i wahardd yn ystod y digwyddiad (gan gynnwys dyfeisiau trydanol) ac ni allwn ganiatáu i ymwelwyr fynd i mewn ac allan o'r adeilad yn ystod y noson.

## Beth yw cyfrifoldebau'r oedolion?

Bydd y digwyddiadau hyn dan oruchwyliaeth staff profiadol. Fodd bynnag, fel rhiant/gwarcheidwad/arweinydd grŵp, mae cyfrifoldeb ar oedolion am oruchwylio eu grwpiau drwy'r digwyddiad, er mwyn sicrhau fod pob gwestai'n cael profiad diogel a hwyliog.

- Mae cyfrifoldebau oedolion yn cynnwys:Sicrhau bod plant yr oed cywir  Dilyn cyfarwyddiadau arweinydd y tîm
- Cadw'r grŵp gyda'i gilydd a dan reolaeth drwy'r amser.
- Sicrhau nad yw eich grŵp yn amharu ar unrhyw un sy'n cysgu

## Beth os yw un o fy grŵp yn sâl?

Bydd staff Amgueddfa sydd â hyfforddiant cymorth cyntaf wrth law i helpu gydag unrhyw bryderon.

## Beth os oes angen i mi adael yn gynnar yn y bore?

Caiff drysau'r Amgueddfa eu cau wedi i'r digwyddiad gychwyn ac ni fydd modd gadael oni bai bod argyfwng. Nid ydym yn argymell gadael yn gynnar, ond os bydd angen i chi adael yn ystod y digwyddiad gadewch i ni wybod ymlaen llaw.

Os oes angen i chi adael y digwyddiad ar unrhyw adeg oherwydd argyfwng, siaradwch ag aelod o staff.

## Os angen i mi wneud unrhyw beth arall cyn y digwyddiad?

Bydd y Tîm Digwyddiadau'n anfon ffurflenni caniatâd wedi i chi archebu. Rhaid llenwi ffurflen ar gyfer pob plentyn yn eich grŵp a rhaid iddynt gael eu llofnodi gan riant neu warcheidwad. Rhaid dychwelyd y ffurflen o leiaf dair wythnos cyn y digwyddiad.

Rhaid i chi ein e-bostio i ddweud wrthym am unrhyw anghenion mynediad neu ddietegol penodol.

Byddwch yn derbyn mwy o fanylion o leiaf wythnos cyn y digwyddiad.

## Lle allaf i gael mwy o fanylion?

Os oes gennych chi fwy o gwestiynau ynghylch y digwyddiad neu eisiau dweud mwy wrthym am anghenion arbennig ymlaen llaw, cysylltwch ag aelod o'r tîm digwyddiadau ar:

digwyddiadau@amgueddfacymru.ac.uk | 02920 573441